# Polisi rhyddid gwybodaeth

Tachwedd 2023

professional standards authority

# Cynnwys

1. Diben ........ 1

2. Cyflwyniad ........ 1

3. Canllaw ar gyfer y cyhoedd ........ 1

4. Rheolaeth Dogfen ........ 6

# 1. Diben

1.1 Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno polisi'r Awdurdod Safonau Proffesiynol ("yr Awdurdod") ar ddelio gyda cheisiadau am wybodaeth fan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA)

# 2. Cyflwyniad

### Beth yw'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth?

2.1 Bwriad y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yw hyrwyddo diwylliant o onestrwydd ac atebolrwydd ymysg awdurdodau cyhoeddus trwy roi hawl mynediad cyffredinol i unigolion at wybodaeth gofnodedig. At ddibenion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn Awdurdod cyhoeddus.

2.2 Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i ddarparu gwybodaeth y gofynnir amdani i'r ymgeisydd, oni bai bod un o'r eithriadau a nodir yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol.

### Beth yw polisi cyffredinol yr Awdurdod ar geisiadau am wybodaeth?

2.3 Mae'r Awdurdod yn croesawu'r hawliau mynediad at wybodaeth, a nodir yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth[1]. Rydym wedi ymrwymo i weithredu'n agored ac i ymdrin â cheisiadau am wybodaeth am ein gweithgareddau. Mae gennym gynllun cyhoeddi, lle gellir cael rhywfaint o wybodaeth am ein gweithgareddau. Os na ellir dod o hyd i'r wybodaeth ofynnol yn ein cynllun cyhoeddi, mae'r canllawiau isod yn manylu ar sut y gellir gwneud cais am wybodaeth i'r Awdurdod.

# 3. Canllaw ar gyfer y cyhoedd

### Sut ellir gwneud cais?

3.1 Er mwyn i'ch cais am wybodaeth fod yn ddilys rhaid iddo:

- Fod yn ysgrifenedig (mae ceisiadau drwy e-bost yn dderbyniol)
- Ddatgan eich enw
- Ddatgan cyfeiriad ar gyfer cyfathrebu (gall fod yn gyfeiriad e-bost)
- Ddisgrifio'r wybodaeth mewn digon o fanylder i'n galluogi i nodi pa wybodaeth a geisir.

3.2 Wrth wneud eich cais dylech nodi sut y byddai'n well gennych dderbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdani. Bydd yr Awdurdod, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, yn darparu'r wybodaeth i chi yn y fformat y gofynnwyd amdano. Os nad yw'r Awdurdod yn gallu darparu'r wybodaeth i chi yn y

[1] Sylwch, er ein bod yn sefydliad ledled y Deyrnas Unedig, oherwydd ein bod wedi ein lleoli yn Lloegr, rydym yn cadw at ofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn unig ac nid ydym yn rhwym i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (yr Alban) 2002.

fformat y gofynnwyd amdano, byddwn yn cyfathrebu'r wybodaeth mewn unrhyw fodd yr ydym yn ei ystyried yn rhesymol o dan amgylchiadau penodol y cais.

### Beth mae'r Awdurdod yn ei wneud pan fyddwn yn derbyn cais?

3.3 Ceisiadau am wybodaeth gyffredinol am ymddygiad yr Awdurdod (fel cais am weithdrefn): Os yw'r cais am wybodaeth y byddem yn darparu fel arfer, yna byddwn yn delio ag ef yn anffurfiol ac nid oes rhaid i'r cais fod yn ysgrifenedig. Byddwn yn ymateb yn brydlon ac, fan bellaf, o fewn 20 niwrnod gwaith.

3.4 Trosglwyddir pob cais am wybodaeth i'r Pennaeth Llywodraethu a fydd yn cydnabod derbyn y cais, yn eich hysbysu o'r dyddiad y daw'r terfyn amser o 20 diwrnod i ben ac yn ystyried y cais yn fanylach.

### Sut fyddwn yn rheoli'r cais?

3.5 Bydd y Pennaeth Llywodraethu yn gweithio gyda'r arweinydd dynodedig yn y tîm sy'n dal y wybodaeth i:

- Sefydlu a ydym yn cadw'r wybodaeth
- Os cedwir y wybodaeth, casglu'r wybodaeth ynghyd
- Cydgysylltu ag unrhyw drydydd parti a'i darparodd i'r Awdurdod neu a fyddai'n cael ei effeithio gan ryddhau'r wybodaeth
- Ystyried a yw unrhyw rai o'r eithriadau yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn berthnasol; a
- Cysylltu â'n hymgynghorwr cyfreithiol ble fo angen.

3.6 Unwaith y bydd penderfyniad wedi'i wneud ar ba wybodaeth, os o gwbl, y gellir ei datgelu, bydd y Pennaeth Llywodraethu yn ysgrifennu atoch.

3.7 Cyn belled â'i bod yn ymarferol resymol, byddwn yn datgelu'r wybodaeth i chi yn eich dewis chi o fformat. Rhaid i chi ddynodi hyn, nid yw'n ddigon i ofyn am wybodaeth 'ar bob ffurf y'i cedwir'. Os na allwn ddarparu'r wybodaeth ar y fformat a geisiwyd, byddwn yn esbonio pam. Os nad ydych wedi datgan dewis o fformat, yna fe allem gyfathrebu'r wybodaeth trwy unrhyw ddull sy'n rhesymol dan yr amgylchiadau.

### Beth fyddwn yn wneud os nad yw'r wybodaeth gennym?

3.8 Os byddwch yn gofyn am wybodaeth nad ydym yn ei chadw, byddwn yn

- Cysylltu â chi a dweud nad ydym yn cadw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani. Os yw'r wybodaeth y gofynnir amdani yn cael ei chadw gan Awdurdod cyhoeddus arall byddwn yn rhoi ei fanylion cyswllt i chi fel y gallwch anfon y cais ymlaen atynt.

### Pa gymorth a chyngor fyddwn ni'n darparu?

3.9 Mae Adran 16 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i ddarparu cyngor a chymorth i unigolion sy'n gofyn am wybodaeth cyn belled ag y byddai'n rhesymol disgwyl i ni wneud hynny. Bydd cyngor a chymorth bob amser yn ffaith a chyd-destun ond gall gynnwys y canlynol:

- Esbonio'r mathau o wybodaeth sydd ar gael
- Y fformat y mae gwybodaeth ar gael ynddo

- Gwybodaeth yn ymwneud â'n polisi codi tâl.

3.10 Os byddwn yn ei chael yn anodd dod o hyd i'r wybodaeth yr ydych wedi gofyn amdani, byddwn yn cysylltu â chi i:

  - Egluro'r cais
  - Darparu esboniad o'n system ffeilio; neu

- Ar ôl cymryd camau rhesymol i'ch cynorthwyo i wneud eich cais, os na allwn nodi na dod o hyd i'r wybodaeth, byddwn yn datgelu gwybodaeth yr ydym yn ystyried sydd wedi'i chwmpasu gan eich cais ynghyd ag esboniad ynghylch pam yr ydym wedi datgelu'r hyn a ddatgelwyd. Byddwn hefyd yn darparu manylion ein gweithdrefn gwyno.

3.11 Ble gwrthodwyd cais, er enghraifft oherwydd cost ormodol, byddai cymorth priodol yn golygu esbonio sut gellid ailffocysu'r cais fel y gallwn ei fodloni.

3.12 Os ydych wedi gwneud cais sy'n rhychwantu'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Deddf Diogelu Data 2018 ("DPA"), byddwn yn eich hysbysu o hyn ac yn delio â'r ceisiadau ar wahân ac yn unol â'r terfynau amser statudol.

3.13 Os na allwn ymateb i'ch cais o fewn y terfynau amser statudol byddwn yn ysgrifennu atoch yn egluro'r oedi ac yn rhoi amserlen newydd i chi ar gyfer ymdrin â'ch cais. Os na fyddwn yn dal yn gallu cydymffurfio â'r cais o fewn yr amserlen newydd byddwn yn ysgrifennu atoch eto gyda diweddariad ar ein cynnydd wrth ymdrin â'ch cais, ac yn rhoi amserlen newydd i chi.

### Beth yw'r amserlen ar gyfer ymateb i geisiadau a gwybodaeth?

3.14 Byddwn yn delio â cheisiadau am wybodaeth yn brydlon ac o fewn 20 diwrnod gwaith ym mhob achos.

3.15 Os gwnaethoch gais ond nad yw wedi bodloni gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ni fydd y cyfyngiad 20 niwrnod yn cychwyn nes ein bod wedi derbyn digon o wybodaeth i ddelio â'r cais.

3.16 Weithiau nid yw'n bosibl i ni ddarparu'r wybodaeth o fewn 20 niwrnod, er enghraifft:

- Os bydd angen i ni ystyried lles y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth; neu;
- Os penderfynwn godi ffi am brosesu'r wybodaeth, fe roddir tri mis i chi o ddyddiad ein hysbysiad i'w dalu. Mae'r amserlen 20 niwrnod yn dod i ben y diwrnod ar ôl i ni anfon yr hysbysiad ac fe fydd yn ailgychwyn y diwrnod wedi i ni dderbyn y ffi.

### A fyddwn yn codi tâl am ddarparu'r wybodaeth?

3.17 Mae Rheoliadau'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data (Terfyn a Ffioedd Priodol) yn datgan nad oes raid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio â chais ble bydd y gost o ddarparu gwybodaeth yn fwy na £450 neu 18 awr.

3.18 Wrth ystyried a fydd ymateb i'r cais yn fwy na £450 byddwn yn ystyried: yr amser a gymerir i benderfynu a ydym yn cadw'r wybodaeth, lleoli, adalw a thynnu'r wybodaeth.

3.19 Os amcangyfrifir fod y cais yn debygol o gostio mwy na £450, fe allwn:

- Wrthod delio â'ch cais gan gynnig cyngor a chymorth ar sut i ailffocysu'r cais er mwyn sicrhau ei fod o fewn terfyn derbyniol; neu

- Ddelio â’ch cais a chodi ffi. Fe’ch cynghorir o’r ffi cyn i ni brosesu’r cais.

3.20 Bydd y ffi yn seiliedig ar:

- Unrhyw ddewis a fynegwyd gennych chi wrth wneud y cais o ran dull cyfathrebu
- Atgynhyrchu unrhyw ddogfen sy’n cynnwys yr wybodaeth; a
- Cost postio ac unrhyw ddull arall o drosglwyddo’r wybodaeth.

3.21 Dim ond os yw’r costau’n fwy na £25 y codir ffi.

## A oes unrhyw sail ddibynadwy ar gyfer peidio cydymffurfio â’ch cais Deddf Rhyddid Gwybodaeth?

### *Ceisiadau blinderus neu fynych*

3.22 Dywed y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth nad oes rhaid i ni ymateb i cais am wybodaeth os yw’r cais yn flinderus. Wrth benderfynu a yw cais yn flinderus byddwn yn ystyried canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth a chyfraith achosion berthnasol. Yn benodol, byddwn yn ystyried:

- Bwriad y ceisydd
- Pwrpas neu werth y cais, yn arbennig pan gyflwynir y cais yn rhan o gyfres o geisiadau.
- P’un a ellir nodweddu’r cais fel obsesiynol neu'n amlwg o afresymol.

3.23 Hyd yn oed os nad yw cais yn flinderus, nid oes unrhyw orfodaeth ar yr Awdurdod i gydymffurfio â chais sydd yr union yr un peth neu’n debyg iawn i gais blaenorol oni bai ei fod wedi cyfnod rhesymol o amser.

3.24 Wrth ystyried p’un a yw cais yn flinderus, fe allwn ofyn am gyngor cyfreithiol.

### *Eithriadau*

3.25 Mae nifer o eithriadau i’r hawl i fynediad. Mae eithriadau naill ai wedi eu cymhwyso neu’n absoliwt.

3.26 Lle bo eithriad amodol yn berthnasol, rhaid i'r Awdurdod gymhwyso prawf dau gam. Yn gyntaf, rhaid penderfynu p’un a yw’r eithriad yn berthnasol i’r wybodaeth a geisiwyd ac os yw, yna byddwn yn cyflawni’r prawf lles y cyhoedd.

3.27 Mae nifer o eithriadau absoliwt hefyd. Os bydd eithriad absoliwt yn weithredol, nid oes angen ystyried lles y cyhoedd.

### Y ddyletswydd i gadarnhau neu wadu

3.28 Ym mhob achos ble fo eithriad cymwys yn berthnasol, ac mewn nifer o achosion ble fo’r eithriad yn absoliwt, rhaid i ni hefyd ystyried p’un a allwn gadarnhau neu wadu p’un a oes gennym yr wybodaeth.

3.29 Mae hyn yn elfen gymhleth o’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae’n bosibl y byddwn yn gofyn am gyngor cyfreithiol cyn ymateb i gais.

### *Ein goblygiadau ar wrthod cais*

3.30 Pan fyddwn yn gwrthod darparu gwybodaeth yn dilyn cais neu na allwn gadarnhau neu wadu a yw’r Awdurdod yn cadw’r wybodaeth, byddwn yn cyhoeddi hysbysiad gwrthod yn nodi’r rhesymau dros wrthod.

3.31 Os byddwn yn dibynnu ar eithriad wrth beidio â darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani, byddwn yn esbonio pam rydym yn ystyried bod yr eithriad yn berthnasol. Os byddwn yn dibynnu ar fudd y cyhoedd o beidio â datgelu gwybodaeth y gofynnwyd amdani, byddwn yn esbonio hyn yn ein hysbysiad gwrthod.

3.32 Pa un bynnag, os ydym yn dal gwybodaeth yn ôl byddwn yn darparu manylion ein gweithdrefn cwynion a byddwn yn eich hysbysu o'ch hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Mae ein gweithdrefn gwyno a manylion y Comisiynydd Gwybodaeth i'w gweld isod.

3.33 Os nad ydych yn fodlon â'r modd y deliom â'ch cais, gallwch gwyno amdanom. Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan neu trwy ffonio 0207 389 8030.

3.34 Os ydych yn dal yn anfodlon, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
Ffôn: 01625 545 745
Ffacs: 01625 524 510
E-bost: enquiries @ico.gsi.gov.uk

# 4. Rheolaeth Dogfen

### Rheolaeth Fersiwn

4.1 Nid yw dogfennau a argraffwyd wedi eu rheoli. Mae'r ddogfen hon yn ddilys ar y diwrnod y'i hargraffwyd yn unig.

| Fersiwn | Statws | Disgrifiad o'r Fersiwn | Dyddiad Cwblhau |
|---|---|---|---|
| 1.0 | cytunwyd | Polisi Rhyddid Gwybodaeth | 14/11/2008 |
| 2.0 | cytunwyd | I ddileu hen ddolenni i wefan yr ICO | 08/05/2009 |
| 2.1 | | Newid Cyswllt | 14/02/2012 |
| 2.2 | | Diweddarwyd ar gyfer Newidiadau o'r CHRE i'r Awdurdod Safonau Proffesiynol | |
| 2.3 | cytunwyd | Adolygiad cyfreithiol | 10/02/2017 |
| 2.4 | Cytunwyd | Adolygiad IAO Blynyddol | Ionawr 2019 |
| 2.4 | Cytunwyd | Arolwg Blynyddol | Ionawr 2022 |
| 2.5 | Cytunwyd | Diweddarwyd i newid Awdurdod i PSA | Tachwedd 2023 |

### *Dogfennaeth Gysylltiedig*

| Fersiwn | Disgrifiad o Ddogfennaeth |
|---|---|
| | |
| | |